# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tŷ Ynysawdre**

**Tŷ Ynysawdre**
**Heol-yr-ysgol, Tondu**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF32 9EG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

**10 Rhagfyr 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cartref gofal yw Tŷ Ynysawdre a gaiff ei redeg gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n darparu llety ar gyfer hyd at 15 o bobl. Darperir y gwasanaeth mewn cyfleuster gofal ychwanegol mawr, sydd hefyd yn darparu gwasanaeth byw â chymorth a thai fforddiadwy. Mae'n gynllun partneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chymdeithas Tai LINC Cymru.

Jacqueline Davies yw'r Unigolyn Cyfrifol ac mae rheolwr wedi'i gyflogi sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r bobl yn cael budd o wasanaeth sy'n hybu eu llesiant. Mae'r unigolion yn y cartref yn cael rhai cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Caiff y bobl eu trin mewn ffordd gynnes a charedig gan staff cyfeillgar ac ymddengys eu bod yn cael gofal da a'u bod yn hapus. Mae cynlluniau personol ac asesiadau risg ar waith ond mae angen eu datblygu ymhellach i sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion, nodau a chanlyniadau dymunol unigol. Mae angen gwella'r prosesau rhoi meddyginiaeth er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n effeithiol. Gwelsom fod yr amgylchedd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn gartrefol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**2. Gwelliannau**

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru yn ddiweddar o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, a hwn oedd arolygiad cyntaf y cartref. Caiff unrhyw welliannau eu hystyried yn ystod ein harolygiad nesaf.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Mae adran pump o'r adroddiad hwn yn nodi'r camau gweithredu y mae angen i ddarparwr y gwasanaeth eu cymryd er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni'r gofynion cyfreithiol, a'r argymhellion er mwyn gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir i'r bobl yn y cartref gofal.
Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dylid cadw'r polisïau a'r gweithdrefnau yn gyfredol.
- Dylai'r cynlluniau personol nodi anghenion gofal a chymorth yr unigolion a sut y cânt eu diwallu.
- Trefniadau cadarn ar gyfer rheoli a rhoi meddyginiaethau.

## 1. Llesiant

### Ein canfyddiadau

Caiff anghenion emosiynol y bobl eu diwallu ar y cyfan yn Nhŷ Ynysawdre. Gwelsom nad oedd gofal a chymorth yn cael ei ddarparu mewn ymgynghoriad â'r unigolyn sy'n cael y gwasanaeth bob amser ac roedd diffyg manylion a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolion mewn cynlluniau unigol i hybu annibyniaeth a dewis. Fodd bynnag, roedd y bobl yn gallu personoli eu hamgylchedd ac yn cael eu hannog i wneud rhai penderfyniadau ynghylch strwythur eu diwrnod. Gwelsom fod amrywiaeth o weithgareddau a oedd yn hybu llesiant y bobl yn cael eu trefnu bob wythnos. Roedd ymweliadau'r unigolyn cyfrifol a'r adolygiadau o ansawdd y gofal yn fanwl ac yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a oedd yn cynnwys barn y bobl am y gwasanaeth. Mae'r dystiolaeth a welsom yn dangos nad ymgynghorir yn llawn â'r bobl am eu hanghenion gofal ond cânt eu cefnogi gan staff sy'n annog dewisiadau.

Caiff y bobl eu cefnogi mewn amgylchedd diogel a chartrefol a gaiff ei gynnal a'i gadw'n dda, sydd â systemau diogelu cadarn ar waith. Roedd rhywfaint o dystiolaeth o gynnal archwiliadau a gwiriadau diogelwch ac roedd mesurau diogelwch ar waith lle y bo angen. Roedd datganiad o ddiben y cartref yn disgrifio'n gywir pa gymorth oedd yn cael ei ddarparu ac roedd ar gael yn hawdd i'r bobl a'u perthnasau. Roedd y bobl yn cael eu cefnogi gan weithwyr gofal sydd wedi mynd drwy broses recriwtio'r darparwr. Roedd y gweithwyr gofal yn adnabod y bobl roeddent yn eu cefnogi yn dda, gan gynnwys y ffordd orau o'u cefnogi i gyflawni eu nodau ac roeddent yn dangos dealltwriaeth dda o'r broses ddiogelu. Er bod polisïau ar waith, roedd angen bwrw golwg dros rai ohonynt er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn berthnasol er mwyn sicrhau bod hawliau cyfreithiol yn cael eu cydnabod a'u cefnogi. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yng nghwmni'r gweithwyr gofal a oedd yn darparu eu gofal a'u cymorth yn ddyddiol. At ei gilydd, mae llesiant y bobl yn cael ei wella gan yr amgylchedd maent yn byw ynddo.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Ar y cyfan, mae'r bobl yn gallu siarad drostynt eu hunain neu gyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, neu mae ganddynt rywun a all wneud hynny drostynt. Dywedodd y bobl a'u perthnasau wrthym fod eu safbwyntiau yn cael eu hystyried. Fodd bynnag, roedd angen sicrhau bod cofnodion gofal yn cofnodi hanes y teulu ac yn disgrifio'r hyn a oedd yn bwysig i'r person. Gwelsom fod cyfarfodydd i breswylwyr a pherthnasau'n cael eu trefnu lle y gallai'r bobl godi unrhyw faterion yr oeddent am eu trafod â thîm rheoli'r cartref. Gwelsom nad oedd cynlluniau personol yn dangos tystiolaeth bod yr unigolyn yr oeddent yn ei ddisgrifio na'i berthnasau yn parhau i gael eu cynnwys. Mae hyn yn dangos, er bod safbwyntiau'r bobl yn cael eu hystyried a bod anghenion yn cael eu diwallu ar y cyfan, fod angen gwneud gwelliannau i ddogfennaeth y cynlluniau personol.

## 2. Gofal a Chymorth

### Ein canfyddiadau

Ar y cyfan mae'r bobl yn cael gofal a chymorth da. Fodd bynnag, nid oedd cynlluniau personol wedi'u personoli bob amser ac nid oedd y nodau/canlyniadau yn glir. Gwnaethom ystyried dogfennaeth cyn asesu ar gyfer sampl o'r bobl sy'n byw yn y cartref. Roedd uwch-aelodau o'r staff yn cynnal asesiadau cychwynnol cyn i'r bobl symud i mewn i'r cartref. Roedd y cynlluniau personol yn rhoi canllawiau i'r staff eu dilyn; roeddent yn dilyn dull a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn mewn rhai meysydd, ond byddai'n fuddiol pe baent yn cael eu datblygu ymhellach mewn meysydd eraill. Dylid nodi dewisiadau bwyd a gweithgareddau. Roedd y cynlluniau personol yn cynnwys meysydd megis gofal personol, maeth, ysgarthu a symudedd. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylid cofnodi iaith gyntaf ac anghenion cyfathrebu'r bobl. Gwelsom nad oedd llawer o dystiolaeth fod y bobl na'u heiriolwyr wedi bod yn rhan o'r gwaith o gynllunio nac adolygu eu gofal. Gwnaethom hysbysu'r darparwr nad oedd yn bodloni gofynion cyfreithiol. Fodd bynnag, pan wnaethom siarad â gweithiwr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r gwasanaeth, dywedwyd wrthym, "*It's really good here*". Dywedodd un person wrthym, "*I couldn't do without them".* Down i'r casgliad y gall y bobl ddisgwyl cael y gofal a'r cymorth cywir ar yr adeg gywir yn y ffordd y dymunant ei dderbyn er mwyn cyflawni eu canlyniadau gorau posibl, ond mae angen gwelliannau o ran dogfennaeth.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed cymaint â phosibl. Gwnaethom edrych ar bolisïau cwynion a diogelu'r gwasanaeth. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu a'u bod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer chwythu'r chwiban a diogelu ac y byddent yn hyderus i roi gwybod am unrhyw bryderon pe bai angen. Mae hawliau'r bobl na allant efallai wneud penderfyniadau o ran eu gofal wedi'u diogelu. Gwelsom fod y cartref wedi gwneud cais i'r awdurdod perthnasol o ran preswylydd y nodwyd nad oedd ganddo alluedd meddyliol o bosibl i wneud penderfyniadau ynghylch gadael y cartref yn annibynnol. Gelwir hyn yn drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid, (DoLS). Mae'n broses gyfreithiol sy'n ceisio sicrhau bod y trefniadau gofal ar gyfer preswylwyr o'r fath yn gymesur ac er eu budd pennaf. Dywedodd perthynas wrthym, "*X is very safe here"*. Rydym o'r farn bod gan y gwasanaeth systemau ar waith i ddiogelu'r bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

Mae'r bobl yn hapus â'r gofal y maent yn ei gael ac mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r staff. Gwelsom rai enghreifftiau cadarnhaol o ddarparu gofal pan oedd y staff yn rhyngweithio ac yn cefnogi'r bobl. Roedd y bobl wedi ymlacio, yn ddigynnwrf ac yn gyfforddus yn eu cartref, gyda'r staff yn eu cefnogi. Drwy gydol ein hymweliad, gwelsom y staff yn cael sgyrsiau hwyliog â'r bobl, a oedd yn dangos bod gan y staff a'r preswylwyr gydberthynas dda â'i gilydd. Gwelsom fod y bobl yn fodlon ac yn hapus yn byw yn y cartref a bod ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r rheolwr a'r staff a oedd yn rhoi cymorth iddynt. Dywedodd perthynas wrthym, "*the staff are very respectful and always polite"*. Caiff y bobl sy'n byw yn Nhŷ Ynysawdre fudd o staff sy'n eu trin ag urddas a pharch.

Cynigir dewis o fwyd a diod i'r bobl a chânt gymorth priodol gan y staff yn ystod  prydau bwyd. Gwelsom fod y bobl yn cael budd o ddeiet iach a rhoddir sylw da i faeth a hydradu. Gwelsom fod y bwydlenni yn amrywiol ac yn cynnig digon o ddewis. Dywedodd un person wrthym, “*the food is wonderful – plenty of it*”. Caiff y prydau bwyd eu paratoi yn y gegin LINC. Gall y bobl ddewis a hoffent fwyta yn y lolfa yn Nhŷ Ynysawdre neu fynd i ardal y bwyty yn y cyfleuster mwyaf. Ar ddiwrnod yr arolygiad hwn, gwelsom un aelod o'r staff yn helpu tri unigolyn i fwyta yn y bwyty. Roedd y prydau bwyd yn hael, ac roedd diodydd ar gael ac yn hygyrch i'r bobl. Roedd byrbrydau a diodydd yn cael eu cynnig rhwng prif brydau ac amser swper. Gwelsom fod y gegin wedi cael sgôr o 5* gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sydd yn ‘dda iawn’. Caiff iechyd y bobl ei hybu am fod eu hanghenion deietegol yn cael eu cydnabod a'u diwallu.

Mae'r bobl yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau addas. Gwelsom fod rhaglen wythnosol o weithgareddau y gallai'r bobl gymryd rhan ynddi os oeddent yn dymuno. Gwelsom dystiolaeth o'r gweithgareddau a oedd yn cael eu cynnig wedi'u harddangos yn y cyntedd. Fodd bynnag, dywedodd y rheolwr wrthym fod y gweithgareddau'n hyblyg iawn, yn dibynnu ar ddymuniadau'r bobl ar unrhyw un diwrnod. Gwelsom fod gweithgareddau megis bingo, celf a chrefft a diddanwyr allanol yn cael eu cynnig. Ar ddiwrnod ein harolygiad, gwelsom rai pobl yn cymryd rhan mewn gweithgaredd lliwio tra bod eraill yn cael paentio eu hewinedd. Gwelsom fod lluniau o'r gweithgareddau a gwblhawyd a'r bobl yn mwynhau wedi'u harddangos yng nghoridorau’r cartref. Dywedodd y rheolwr wrthym fod cysylltiadau cryf â'r gymuned leol, a bod yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd leol yn ymweld â'r cartref. Caiff un ystafell ymolchi ei defnyddio fel ‘sba’ lle y gall y bobl ymlacio mewn bath â jetiau a gwylio'r teledu os ydynt yn dymuno. Deuthum i'r casgliad bod gan y bobl bethau i edrych ymlaen atynt ar y cyfan a'u bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Ar y cyfan, mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir. Y rheswm dros hyn yw y gwelsom fod anghenion iechyd y bobl wedi cael eu nodi a bod gwasanaethau iechyd ar gael i'r bobl; roedd atgyfeiriadau priodol wedi cael eu gwneud. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen gwella arferion mewn perthynas â rhoi meddyginiaeth. Gwelsom fod bylchau yn y siartiau MAR (cofnodion rhoi meddyginiaeth). Gwelsom hefyd nad oedd unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig i ddangos canlyniadau'r feddyginiaeth PRN (meddyginiaeth 'yn ôl yr angen') ar ôl iddi gael ei rhoi. Roedd systemau a phrosesau ar waith i leihau risgiau sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth. Fodd bynnag, nid oedd y staff yn dilyn y rhain bob amser. Gwnaethom hysbysu'r darparwr nad oedd yn bodloni gofynion cyfreithiol. Roedd y staff yn fedrus ac wedi'u hyfforddi i ddarparu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, a dangoswyd hyn drwy'r ymatebion cadarnhaol a gawsom oddi wrth y bobl am eu gofal, gwybodaeth y staff a thrwy ein harsylwadau yn ystod yr arolygiad. Gwnaethom siarad â gweithiwr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r gwasanaeth a ddywedodd wrthym, “*I have no concerns, manual handling practices are fine, referrals are timely and appropriate, communication is good and instructions are followed*”. Mae'r bobl mor iach ag y gallant fod, gan fod y gwasanaeth yn ymatebol i gael gafael ar wasanaethau meddygol ac yn cefnogi hyn.

## 3. Yr Amgylchedd

### Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, maent yn hapus ac yn cael eu gwerthfawrogi oherwydd cânt eu cefnogi mewn amgylchedd wedi'i bersonoli sy'n briodol i'w hanghenion unigol. Gwelsom fod y bobl wedi ymlacio ac yn fodlon, p'un a oeddent yn y lolfa neu yn eu hystafelloedd. Dywedwyd wrthym eu bod yn hoffi eu hystafelloedd a'u bod yn mwynhau treulio amser yn y lolfa hefyd. Gwelsom fod rhywfaint o ddodrefn ac eiddo personol y bobl yn eu hystafelloedd gwely, ac roeddent wedi eu haddurno i safon dda. Pan gyrhaeddom, roedd y safle yn groesawgar ac yn gartrefol a phan gawsom ein tywys o amgylch y cartref, gwelsom ei fod yn lân ac yn gyfforddus. Dywedodd u person wrthym, "*they look after us, it's nice and they keep it clean".* Dywedodd y perthnasau wrthym eu bod bob amser yn cael croeso yno. Dywedodd perthynas arall wrthym, "*I'm perfectly happy, it's totally clean"*. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n lân, yn gyfforddus ac wedi'i bersonoli.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag risgiau iechyd a diogelwch amgylcheddol. LINC sy'n berchen ar yr adeilad ac sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r gwiriadau cynnal a chadw. Gwnaethom edrych ar sampl o wiriadau a gwblhawyd ganddi. Roeddent yn cynnwys gwiriadau hylendid dŵr a thymheredd dŵr, a gwiriadau wythnosol o'r system tân, goleuadau argyfwng, cyfarpar i agor y drysau mewn argyfwng ac allanfeydd tân. Gwnaethom nodi hefyd fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant sefydlu mewn perthynas â gweithdrefnau tân a ddarparwyd gan LINC. Roedd Tŷ Ynysawdre hefyd yn cynnal profion trydanol ar ddyfeisiau cludadwy a gwelsom fod teclynnau codi wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Gwelsom fod cydberthynas waith dda rhwng rheolwr y cartref a rheolwr cyfleusterau'r adeilad, a bod llyfr cyfathrebu'n cael ei ddefnyddio hefyd. Ar y cyfan, caiff y bobl ofal mewn amgylchedd diogel, sydd wedi'i gynllunio i sicrhau bod diogelwch y bobl yn cael ei hyrwyddo.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Caiff yr angen am gyfrinachedd ei ragweld a'i barchu. Roedd y cofnodion gofal a chofnodion personél y cyflogeion yn cael eu storio'n ddiogel yn swyddfa'r rheolwr.
Roedd modd cyfeirio'n hawdd at y cofnodion Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn y cofnodion gofal. Yn ogystal â hyn, roedd y bobl yn ddiogel rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad. Roedd yn rhaid i ymwelwyr lofnodi'r llyfr ymwewyr wrth gyrraedd a gadael. Roedd yn rhaid i bob ymwelydd lofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Caiff preifatrwydd a gwybodaeth bersonol y bobl eu diogelu'n dda.

## 4. Arwain a Rheoli

### Ein canfyddiadau

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth i'w helpu i ddeall y gofal, y cymorth a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Y rheswm dros hyn yw am ein bod wedi gweld datganiad o ddiben a chanllaw ysgrifenedig yn y cartref. Roedd copïau o'r dogfennau hyn yn amlwg ac ar gael i'w darllen yn y cartref. Gwelsom fod datganiad o ddiben y cartref wedi cael ei adolygu a'i fod yn adlewyrchu'r gwasanaeth a gwerthoedd ei staff yn gywir. Roedd yn nodi'r amrywiaeth o gyfleusterau a gwasanaethau a gynigir, gan alluogi darpar breswylwyr a'u teuluoedd i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynglŷn â'r posibilrwydd o fyw yno. Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar gael i'r staff gael gafael arnynt. Cawsom wybod bod polisïau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael eu hadolygu'n gorfforaethol. Wrth drafod â'r rheolwr, cawsom wybod bod y rhan fwyaf o'r polisïau yn dal i fod yn addas at y diben, er nad oeddent wedi cael eu hadolygu'n ffurfiol yn flynyddol. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr system gorfforaethol sy'n amlygu unrhyw bolisïau y mae angen eu hadolygu. Gwnaethom hysbysu'r darparwr nad oedd yn bodloni gofynion cyfreithiol. Roedd y rheolwyr a'r staff yn trafod darparu gofal o ansawdd uchel mewn ffordd angerddol ac roedd eu hymrwymiad i hyn yn amlwg yn eu brwdfrydedd a pha mor gymwynasgar oeddent. Mae gwerthoedd a gweledigaeth y gwasanaeth yn glir ar y cyfan.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Gall y bobl fwynhau gofal gan staff llawn cymhelliant sydd am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau. Yn gyffredinol, gall y bobl fod yn hyderus bod digon o staff ar gael. Gwelsom fod rota'r staff wedi'i gwblhau'n brydlon. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod digon o staff ar ddyletswydd i roi'r cymorth cywir i'r bobl pan oedd ei angen arnynt. Gwelsom fod y staff yn cyflawni eu dyletswyddau mewn modd hamddenol ac yn cymryd eu hamser i siarad â'r bobl wrth wneud hynny. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau eu swyddi ac yn eu hystyried yn swyddi sy'n rhoi boddhad iddynt. Gwnaethom argymell y dylai'r lefelau staffio adlewyrchu'r hyn a gofnodwyd yn y datganiad o ddiben. Roedd sesiynau goruchwylio staff cyson yn rhoi cyfleoedd i'r staff nodi anghenion hyfforddi a datblygu, gan adolygu eu nodweddion personol, eu gwybodaeth, eu medrusrwydd a'u sgiliau rhyngbersonol, gwneud penderfyniadau a rheoli ar yr un pryd. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym, "*I love my job*" ac "*I enjoy it here*". Cadarnhaodd archwiliad o ffeiliau'r staff bod yr aelodau o'r staff wedi cael gwiriadau rheolaidd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Nid oeddem yn gallu ystyried y cofnodion recriwtio gan eu bod yn cael eu cadw gan yr adran Adnoddau Dynol. Fodd bynnag, cawsom sicrwydd gan y rheolwr a'r unigolyn cyfrifol nad oeddent yn gallu trefnu dyddiad i'r aelodau newydd o'r staff ddechrau nes bod yr holl wiriadau gofynnol wedi cael eu cwblhau. Cadarnhaodd y matrics hyfforddiant fod y rhan fwyaf o'r staff naill ai wedi cwblhau'r hyfforddiant sy'n berthnasol i anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref, neu eu bod yn bwriadu ei gwblhau. Fodd bynnag, dywedodd y rheolwr wrthym nad oedd yn gwbl gyfredol a bod tystiolaeth o'r hyfforddiant a gwblhawyd wedi'i chadw mewn ffeiliau unigol. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan dîm sy'n meddu ar y

wybodaeth a'r sgiliau priodol, ac mae'r staff yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u hyfforddi ar y cyfan.

Mae rhai systemau ar waith er mwyn monitro ansawdd y cymorth y mae'r bobl yn ei gael. Gwelsom dystiolaeth wedi'i dogfennu bod yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd fel rhan o'i chyfrifoldebau. Roedd cofnodion o'r ymweliadau hyn yn dangos tystiolaeth o amrywiaeth o drafodaethau â'r bobl, aelodau o'u teuluoedd a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'u gofal, ac roeddent yn cael eu defnyddio i wirio ansawdd cyffredinol y cymorth a ddarperir, ac yn gofyn am unrhyw welliannau y gellid eu gwneud. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd digon o archwiliadau misol yn cael eu cwblhau ar gyfer pob agwedd ar ofal a chymorth, megis meddyginiaeth, rheoli heintiau amgylcheddol a chadw cofnodion. Roedd polisi a gweithdrefn gwyno ar gael yn hawdd; dywedodd y bobl a'u perthnasau wrthym eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn pe bai angen iddynt wneud hynny ac roeddent yn hyderus y byddai'r rheolwr yn gwrando arnynt pe baent yn cyflwyno cwyn. Gwnaethom nodi nad oedd unrhyw gwynion wedi bod ers i'r gwasanaeth gofrestru. Roedd cyfarfodydd preswylwyr a pherthnasau yn cael eu trefnu er mwyn i'r bobl ac aelodau o'u teuluoedd fynegi unrhyw bryderon a oedd ganddynt. Gwelsom fod cyfarfodydd staff misol yn cael eu cynnal er mwyn rhoi'r cyfle i weithwyr gofal drafod y ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu a chael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y cartref. Gwelsom sut y caiff canfyddiadau o gofnodi digwyddiadau, archwiliadau a chwynion eu coladu mewn adroddiad ar ansawdd y gofal bob chwe mis a oedd yn nodi'r holl gamau gweithredu a'r holl welliannau arfaethedig ar gyfer y cartref. Mae hyn yn dangos y gall y bobl ddisgwyl cael gofal gan wasanaeth sy'n ymrwymedig i ddatblygu diwylliant sy'n sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl iddynt.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Hwn yw'r arolygiad cyntaf ers i'r cartref gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwelsom nad yw'r darparwr yn bodloni'r gofynion cyfreithiol mewn perthynas â'r canlynol:

- Rheoliad 12 (4)(c) – Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod cynnwys y polisïau a'r gweithdrefnau yn cael ei gadw'n gyfredol.

- Rheoliad 15(1) – Rhaid i'r darparwr gwasanaeth baratoi cynllun personol sy'n nodi anghenion gofal a chymorth yr unigolyn a sut y cânt eu diwallu.

- Rheoliad 58(2)(c) – Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer archwilio'r cyfleusterau storio a gweinyddu meddyginiaethau yn rheolaidd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Nid ydym wedi rhoi hysbysiadau diffyg cydymffurfio y tro hwn gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y materion eu hystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

### 5.3 Gwnaethom yr argymhellion canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr owuchwylio hyfforddiant y staff.

- Dylai'r lefelau staffio gael eu hadolygu'n rheolaidd a bod yn unol â'r datganiad o ddiben.

- Dylai ffeiliau'r staff gynnwys cadarnhad gan yr adran Adnoddau Dynol bod yr holl wiriadau recriwtio wedi'u cwblhau yn unol ag Atodlen 1 i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017.

- Dylid rhoi system glir o archwiliadau rheolaidd ar waith.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arolygu. Ymwelodd dau arolygydd â'r cartref yn ddirybudd ar 10 Rhagfyr 2019 rhwng 10.00am a 5.00pm. Gwnaethom ystyried pedwar maes y fframwaith arolygu, sef llesiant y bobl sy'n byw yn y cartref, ansawdd y gofal a'r cymorth, yr amgylchedd a'r trefniadau arwain a rheoli.

Ystyriwyd y rheoliadau canlynol fel rhan o'r arolygiad hwn:
Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017.

Roedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal yr arolygiad hwn yn cynnwys:

- Taith o amgylch y cartref.
- Trafodaethau â phedwar aelod o'r staff.
- Trafodaeth â'r rheolwr.
- Trafodaethau â dau unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth.
- Trafodaethau â gweithwyr proffesiynol eraill.
- Craffu ar ffeiliau pedwar aelod o'r staff.
- Craffu ar ffeiliau gofal dau unigolyn.
- Craffu ar ddogfennaeth arall, fel y nodir yn yr adroddiad hwn.
- Gwnaethom fwrw golwg dros wybodaeth am y gwasanaeth a ddelir gan AGC.
- Gwnaethom edrych ar sampl o bolisïau a dogfennau archwilio.
- Gwnaethom edrych ar ddatganiad o ddiben y cartref.
- Gwnaethom ddefnyddio'r Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI). Mae adnodd SOFI yn galluogi arolygwyr i arsylwi ar ofal a'i gofnodi er mwyn ein helpu i ddeall profiadau'r bobl na allant gyfathrebu â ni.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal |
| Darparwr y Gwasanaeth | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Unigolyn Cyfrifol | Jacqueline Davies |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 15 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Cofrestriad newydd |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 10/12/2019 |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Y ddwy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy |
| Gwybodaeth Ychwanegol: | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/03/2020